Welcome to Tenby

Tenby, with its unique blend of historic town, award winning beaches and stunning scenery, has something for everyone to enjoy. Set within the Pembrokeshire Coast National Park, it makes a great base for exploring this beautiful area.

A Defensive Site

Tenby's natural advantages have made it a sought after location for centuries.

In the early days **Castle Hill** provided a defensive site and it is thought that the first settlement here was an Iron Age fort. Later it became the site of **Tenby Castle**, built when the Normans invaded the area in the 12th century. **Tenby Museum and Art Gallery** is in part of the old castle and is open to the public.

Five Arches, one of the main entrances into the walled town, still stands today.

A Bustling Harbour

The pretty harbour that you see today was a thriving port during the Middle Ages with cargoes arriving from Spain, Portugal and France. Merchants became rich and built themselves fine houses inside the walled town. The **Tudor Merchants House** on Quay Hill, now owned by the National Trust, dates from this time and is open to the public. The splendour of **St Mary's Church** also reflects the town's medieval prosperity.

A Seaside Resort

In the late 18th century Tenby became an upmarket resort attracting the rich and famous who came to take advantage of its clean bathing waters. Tenby's popularity has continued for over 200 years and people still come from far and wide to enjoy this magnificent location.

Tenby Town Trails

Find out more about this historic town by following one of the **Town Trails** available from the **National Park Centre**, the **Tourist Information Centre** and other local outlets.

Explore the area

A **186 mile National Trail** hugs the Pembrokeshire Coast, passing through Tenby. Follow the acorn signs to walk 3.8 miles (6.1km) North to Saundersfoot or 4.3 miles (6.75 km) South West to Lydstep. You can use the local bus service to return, or to reach your starting point. An **easy access path** from Saundersfoot to Wiseman's Bridge gives spectacular views across the bay.

Boats run to **Caldey Island** every day throughout the season, weather permitting.

Croeso i Ddinbych-y-pysgod

Mae gan Ddinbych-y-pysgod, â'i gyfuniad unigryw o dref hanesyddol, traethau a wobrwywyd a golygfeydd trawiadol, rywbeth i bawb i'w fwynhau. Wedi ei lleoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae'r dref yn leoliad gwych ar gyfer archwilio'r ardal hyfryd hon.

Safle Amddiffynnol

Mae manteision naturiol Dinbych-y-pysgod wedi golygu ei fod yn leoliad atyniadol ers canrifoedd.

Yn y dyddiau cynnar roedd **Bryn y Castell** yn safle amddiffynol a chredir bod yr aneddiad cyntaf yma'n gaer o Oes yr Haearn. Yn hwyrach, dyma oedd safle **Castell Dinbych-y-pysgod**, a adeiladwyd pan ymsododd y Normaniaid ar yr ardal yn y ddeuddegfed ganrif. Mae **Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod** wedi ei lleoli mewn rhan o'r hen gastell ac mae'n agored i'r cyhoedd.

Mae'r **Pum Bwa**, oedd yn un o'r prif fynedfeydd i'r dref gaerog, yn dal i sefyll hyd heddiw.

Harbwr Prysur

Roedd yr harbwr tlws a welwch heddiw yn borthladd llewyrchus yn ystod yr Oesoedd Canol gyda llwythi'n cyrraedd yma o Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Tyfodd y masnachwyr yn gyfoethog ac adeiladu tai hardd i'w hunain y tu mewn i'r dref gaerog. Mae **Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd** ar Fryn y Cei, sydd bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn dyddio o'r cyfnod hwn ac mae'n agored i'r cyhoedd. Mae ysblander **Eglwys y Santes Fair** hefyd yn adlewyrchu cyfoeth canoloesol y dref.

Cyrchfan Glan Môr

Ar ddiwedd y 18ed ganrif daeth Dinbych-y-pysgod yn gyrchfan ddrud oedd yn denu'r cyfoethog a'r enwog a ddaeth yma i fanteisio ar y dyfroedd glân. Mae poblogrwydd Dinbych-y-pysgod wedi parhau ers dros 200 mlynedd ac mae pobl yn dal i heidio yma o bell ac agos i fwynhau'r lleoliad gwych hwn.

Llwybrau Tref Dinbych-y-pysgod

Dysgwch fwy am y dref hanesyddol hon trwy ddilyn un o'r **Llwybrau Tref** sydd ar gael o **Ganolfan y Parc Cenedlaethol**, y **Ganolfan Groeso** a lleoliadau lleol eraill.

Archwilio'r ardal

Mae **Llwybr Cenedlaethol 186 milltir** o hyd yn ymwasgu at Arfordir Penfro, gan basio trwy Ddinbych-y-pysgod. Dilynwch yr arwyddion mes i gerdded 3.8 milltir (6.1 cm) tua'r Gogledd i Saundersfoot neu 4.3 milltir (6.75 cm) tua'r De Orllewin i Lydstep. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth bws lleol i ddychwelyd, neu i gyrraedd eich man cychwyn. Mae llwybr **mynediad rhwydd** o Saundersfoot i Wiseman's Bridge yn cynnig golygfeydd anhygoel ar draws y bae.

Mae cychod yn mordwyo i **Ynys Bŷr** bob dydd trwy gydol y tymor, pan fo'r tywydd yn caniatáu.

Museum and Art Gallery

St Catherines Island

Tudor Merchants House

St Mary's Church

Castle Hill

Lifeboat Station

Castle Beach

South Beach

Harbour

Five Arches

National Park Centre

De Valence Centre

Goskar Rock

North Beach

Illustrations by Graham Breed

KEY / ALLWEDD

- You are here / Rydych chi yma
- National Trail / Llwybr Cenedlaethol
- Car Park / Maes Parcio
- Information Centre / Canolfannau Gwybodaeth
- Toilet / Toiledau

For further information on Tenby and the walks and activities in the area visit the **Tenby National Park Centre** (01834 845040) or visit the National Park Authority website at www.pembrokeshirecoast.org.uk.
The Pembrokeshire Coast National Park Authority works to protect and conserve this spectacular coastline while helping people to enjoy and understand its special qualities.

Am ragor o wybodaeth am Ddinbych-y-pysgod, a'r teithiau cerdded a'r gweithgareddau sydd ar gael yn yr ardal, ymwelwch â **Chanolfan y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod** (01834 845040) neu ymwelwch â gwefan Awdurdod Y Parc Cenedlaethol ar www.pembrokeshirecoast.org.uk.
Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n gweithio i amddiffyn a gwarchod yr arfordir anhygoel hwn tra'n helpu pobl i fwynhau a deall ei rinweddau arbennig.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Tenby / Dinbych-y-pysgod

Llywodraeth Cymuliad Cymru
Welsh Assembly Government

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL THE NATIONAL TRUST

TENBY MUSEUM & ART GALLERY
AMGUEDDFA AC ORIEL GELF DINBYCH-Y-PYSGOD

Lifeboats

Planed